O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1315 (Cy. 116)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyffordd Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Mai 2015* |
| *Yn dod i rym* | *7 Mai 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd - Y Fenni (yr A465) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd honno neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mai 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyffordd Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015.

**2.**—(1) —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffurdd (Cufumgoadai Drps Drp) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 I Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 ar 7 Mai 2015 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau hynny o’r gefnffordd rhwng Cyffordd Gorllewin Glynebwy yn Sir Blaenau Gwent a Chylchfan Hardwick yn Sir Fynwy a ddisgrifir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**8.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, oddiweddyd wrth yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur oddiweddyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**9.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedlo, na pheri i unrhyw feic pedlo gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

**Atal**

**10.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffyrdd (Terfyn Cyflymder 50 M.Y.A.) (Cymru) (Rhif 1) 1969(**1**) drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**11.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau

---

(**1**) O.S 1969/745.

hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a’r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**12.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gwinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 1 Mai 2015

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

# SCHEDULES

## ATODLEN 1

## GWAHARDD CERBYDAU

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol Cylchfan Rasa hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at bwynt 38 o fetrau i'r gorllewin o ganol Cylchfan Glanbaiden.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd o bwynt 38 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Glanbaiden hyd at ddechrau ffordd ymadael Llan-ffwyst.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd o bwynt 45 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick hyd at bwynt 38 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Glanbaiden.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r dwyrain (lonydd aliniad newydd) o ganol ffordd ymadael Cyffordd Gorllewin Glynebwy hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r gorllewin (lonydd aliniad newydd) o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr i ganol ffordd ymuno Cyffordd Gorllewin Glynebwy.

Y gerbytffordd gylchredol honno o Gylchfan Glanbaiden o'i ffordd ymadael â'r A465 tua'r gorllewin hyd at ei ffordd ymuno â'r A465 tua'r dwyrain.

Y gerbytffordd gylchredol honno o Gylchfan Glanbaiden o'i ffordd ymadael â'r A465 tua'r dwyrain yr hyd at ei ffordd ymuno â'r A465 tua'r gorllewin.

## ATODLEN 2

## DIM TROI I'R DDE

Dim troi i'r dde oddi ar gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Gilwern i Station Road.

# ATODLEN 3

## TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 800 metr i'r gogledd-orllewin o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at ganol ffordd ymuno tua'r dwyrain Garnlydan.

# ATODLEN 4

## TERFYN CYFLYMDER 40 MYA, TERFYN CYFLYMDER 10 MYA A DIM GODDIWEDDYD

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at bwynt 800 metr i'r gogledd-orllewin o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

# ATODLEN 5

## GWAHARDD BEICWYR

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (lonydd aliniad newydd) o ganol ffordd ymadael Cyffordd Gorllewin Glynebwy hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at y ffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd Llan-ffwyst ar y lonydd tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn Llan-ffwyst ar gyfer y lonydd tua'r gorllewin.